Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Ymgynghori ar gynigion ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi**

**DYDDIAD** **4 Chwefror 2015**

**GAN** **Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**

Mae Deddf Cymru 2014, a gafodd ei phasio'n ddiweddar gan Senedd y DU, yn rhoi pwerau trethu a benthyca newydd i Gymru. Fel rhan o'r pecyn hwn o fesurau cyllidol, caiff y Dreth Dirlenwi ei datganoli i Gymru o fis Ebrill 2018. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu disodli'r dreth hon â Threth Gwarediadau Tirlenwi.

Rwy'n falch o'ch hysbysu y byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi ar 24 Chwefror 2015. Dyma'r trydydd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer trethi Cymreig. Y llynedd cynhaliais ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer casglu a rheoli'r trethi a ddatganolir inni, a'r wythnos nesaf byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Treth Trafodiadau Tir, a fydd yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru.

Bydd yr ymgynghoriad yn un agored a chynhwysfawr, gan gynnig cyfle gwirioneddol i bobl Cymru allu dylanwadu ar agweddau pwysig ar y dreth yn y cyfnod cynnar hwn ar ei datblygiad. Dylai'r dreth fod yn gyson hefyd â'r egwyddorion ar drethi Cymru yr wyf wedi'u nodi o'r blaen, a fydd yn ceisio creu treth:

- a fydd yn deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n ei thalu;
- a fydd yn syml, gyda rheolau clir, gan anelu at gadw costau cydymffurfio a gweinyddu i'r lleiaf;
- a fydd yn cefnogi twf a swyddi, ac a fydd, yn ei dro, yn helpu i drechu tlodi; ac
- a fydd yn darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

Mae hyn yn ddatblygiad pwysig ym mhwerau'r Cynulliad Cenedlaethol ac edrychaf ymlaen at gael eich barn ynghylch sut y dylem ddatblygu'r dreth hon i ddiwallu anghenion Cymru.